# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

# POLISI GORFODI DIWYGIEDIG DRAFFT – COMISIYNYDD Y GYMRAEG

**CYFLWYNIAD**

Mae Comisiynydd y Gymraeg (y “Comisiynydd”) wedi comisiynu ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar ei Bolisi Gorfodi diwygiedig drafft, yn ystod y cyfnod ffurfiannol.

Mae’r Comisiynydd yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ynghyd â’r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol sy’n benodol i Gymru a ddaeth i rym yn 2011. Mae cynnal yr asesiad yn sicrhau bod y Comisiynydd yn cyflawni rhan o’r dyletswyddau cydraddoldeb penodol sef “asesu effaith penderfyniadau polisi a gweithdrefnau ar gydraddoldeb.”

Mae’r asesiad yn rhan greiddiol o ddeall ac ystyried yr effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o ganlyniad i ddiwygio polisi, llunio polisi newydd, diwygio gweithdrefn neu ddatblygu gweithdrefn o’r newydd.

Wrth gynnal asesiad effaith rydym yn ystyried sut y gallai’r cynnig hwn effeithio ar unigolion sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig yn ofalus, ac yn ceisio nodi camau i leihau anghydraddoldebau ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

Ymhellach i’r gofynion sy’n ymwneud a’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae’r asesiad yma yn ystyried dyletswydd economaidd-gymdeithasol ddaeth i rym yng Nghymru yn 2021. Bwriad y ddyletswydd yw arwain at benderfyniadau fydd yn y pen draw yn cyflawni canlyniadau gwell i’r rheiny sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nodwn nad yw’r Comisiynydd yn un o’r cyrff statudol y mae’n ofynnol iddynt gydymffurfio â’r dyletswydd, fodd bynnag mae wedi ymrwymo i weithredu yn ysbryd y dyletswydd. Bydd y Comisiynydd yn gwneud hyn drwy ymgorffori’r egwyddorion o fewn prosesau wrth ystyried effaith penderfyniadau strategol ar unigolion sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nodwn hefyd y byddai asesiad cydraddoldeb gan gorff cyhoeddus yng Nghymru, yn arferol, yn ystyried darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae’r rhain yn gofyn i sefydliadau cyhoeddus ystyried yr effaith y bydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn, neu greu polisi neu weithdrefn o’r newydd, yn ei gael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac er mwyn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Fodd bynnag, gan mai nod swyddogaeth y Comisiynydd yw hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg ynghyd â natur y polisi, ni fydd yr asesiad hwn yn ymdrin â’r iaith fel ystyriaeth benodol ar wahân.

## ADRAN 1 - Manylion

### Teitl y polisi

Polisi Gorfodi Diwygiedig Drafft

### Pwrpas y polisi

Mae'r Polisi Gorfodi yn ddogfen statudol sy'n egluro sut bydd y Comisiynydd yn gweithredu pwerau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n darparu eglurder ynghylch pryd a sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn mewn ymateb i honiadau o fethiant i gydymffurfio â'r safonau, gan sicrhau tegwch, tryloywder, a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r polisi yn cael ei ystyried yn ganolog i waith rheoleiddio'r Comisiynydd oherwydd ei effaith ar sefydliadau sy'n gweithredu o fewn cyfundrefn safonau'r Gymraeg ac ar unigolion sy'n cwyno am fethiant i gydymffurfio. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth amddiffyn hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg ac wrth feithrin hyder yn y broses orfodi yn gyffredinol. Mae perthynas weithredol rhwng y polisi a'r Fframwaith Reoleiddio sydd yn amlinellu'r ffordd y mae'r Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.

Bydd y Polisi Gorfodi diwygiedig yn disodli'r Polisi Gorfodi cyfredol sy'n weithredol ers 2021.

### Pam fod angen newid?

Mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen diwygio'r polisi cyfredol er mwyn adlewyrchu dull mwy rhagweithiol o gyd-reoleiddio sydd wedi ei fabwysiadu, gyda phwyslais ar hybu hunan-reoleiddio. Mae'r dull newydd hwn yn annog cydweithio gyda sefydliadau.

Mae'r Comisiynydd wedi nodi bwriad i sicrhau nad yw rheoleiddio yn golygu cynnal ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi yn unig. Mae bwriad cynyddu'r gefnogaeth reoleiddio sydd ar gael drwy ddarparu cyngor; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth; a chefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau.

Mae'r Comisiynydd yn gweld bod llwyddiant y dull cyd-reoleiddio yn ddibynnol ar fod yn agored ac yn onest, a thrwy hynny am annog sefydliadau i gysylltu yn gynnar i roi gwybod am unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth.

### Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r polisi diwygiedig yn pwysleisio dull newydd o gyd-reoleiddio, gan roi pwyslais ar hybu hunan-reoleiddio. Bydd y polisi diwygiedig hefyd yn ceisio:

- Cynnig egwyddorion rheoleiddio gyda mwy o bwyslais ar gydweithio a phartneriaeth
- Annog sefydliadau i ddatrys cwynion yn fewnol cyn iddynt gyrraedd y Comisiynydd
- Nodi'n glir bod amrywiaeth o ddulliau ar gael i adfer cydymffurfiaeth - gan roi dewis o'r dull gorau ym mhob sefyllfa
- Pwysleisio'r angen i osgoi oedi di-angen ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r partïon dan sylw.

Mae'r canlynol yn cymharu prif elfennau'r polisi cyfredol gyda'r polisi diwygiedig drafft gan adlewyrchu'r prif newidiadau sy'n cael eu nodi uchod:

Dull Rheoleiddio

- Polisi cyfredol - Mae’r polisi cyfredol yn seiliedig ar egwyddorion rheoleiddio traddodiadol, gan gynnwys cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, tryloywder a thargedu. Mae’n canolbwyntio ar fodel unffordd lle mae'r Comisiynydd yn arwain y broses reoleiddio, a chydymffurfio yn cael ei fonitro drwy brosesau gorfodi. ffurfiol.
- Polisi diwygiedig drafft - Mae'r polisi diwygiedig yn adlewyrchu’r dull mwy cydweithredol o reoleiddio, sydd wedi ei fabwysiadu gan y Comisiynydd yn ddiweddar. Tra bod yr esblygiad yn y dull o reoleiddio yn cael ei adlewyrchu yn y polisi, mae egwyddorion rheoleiddio da i’w weld yn parhau wrth wraidd gwaith y Comisiynydd. Ystyrir fod y dull hwn yn pwysleisio’r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, hyrwyddo hunan reoleiddio, a chefnogi ymdrechion i wella.

<u>Ymdrin â Chwynion</u>

- Polisi cyfredol - Mae’r polisi presennol yn cynnig disgrifiad manwl o’r broses ar gyfer cyflwyno cwynion, eu dilysu, a’r ystyriaethau a ddefnyddir i benderfynu a ddylid agor ymchwiliad. Mae’n canolbwyntio ar broses fanwl, sydd weithiau yn feichus, sy’n delio â phob cwyn yn unol â’r broses a threfn statudol.
- Polisi diwygiedig drafft - Mae'r polisi diwygiedig yn ceisio symleiddio a gwella hygyrchedd y broses gwyno a phwysleisio'r angen i osgoi oedi di-angen ac i weithredu'n amserol . Mae’r rheidrwydd ar y Comisiynydd i ystyried pob cwyn a dilyn prosesau statudol yn parhau, fodd bynnag mae’r polisi yn ceisio annog y cyfle i sefydliadau geisio ymdrin â chwynion trwy brosesau mewnol yn y lle cyntaf, ble bo hynny yn briodol. Nod y newid yw gwneud y broses yn fwy effeithlon er mwyn defnyddio adnoddau ar faterion sydd o wir bwys gan sicrhau’r canlyniadau gorau posib i’r defnyddiwr gwasanaeth.

<u>Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi</u>

- Polisi Cyfredol - Mae’r polisi presennol yn amlinellu trefn y camau ffurfiol y mae’n rhaid eu cymryd ar gyfer cynnal ymchwiliadau. Mae’r pwyslais ar roi camau gorfodi mewn lle ar ôl canfod methiant i gydymffurfio.
- Polisi diwygiedig drafft - Mae’r polisi newydd yn adlewyrchu’r sawl dull sydd ar gael i’r Comisiynydd ar gyfer adfer cydymffurfiaeth gan gynnwys cynnal ymchwiliad drwy gynnwys dulliau mwy hyblyg a chydweithredol. Mae’r pwyslais ar ddefnyddio’r amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael trwy ddewis y dull gorau ym mhob amgylchiad, gan gynnwys cytundebau setlo a llunio cynlluniau gweithredu i fynd i’r afael â materion. Mae’r polisi hefyd yn annog gwelliannau gwirioneddol gan roi mwy o bwyslais ar gamau union a dull o weithio sy’n ceisio canlyniadau cadarnhaol i’r Gymraeg a’r defnyddwyr.

<u>Apeliadau a Goruchwyliaeth</u>

- Polisi cyfredol - Mae’r trefniadau presennol yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydliadau i apelio yn erbyn penderfyniadau’r Comisiynydd, ond heb lawer o fanylder am y broses apelio.
- Polisi diwygiedig drafft - Mae’r polisi arfaethedig yn cyflwyno adran benodol ar hawliau apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Mae’n rhoi arweiniad clir ar y broses apelio, gan gryfhau’r egwyddorion o dryloywder ac atebolrwydd. Trwy egluro’r dull goruchwylio, bydd y Comisiynydd yn hybu hyder sefydliadau yn y broses rheoleiddio.

## ADRAN 2 – Dull a Methodoleg

Mae’r asesiad yn dilyn egwyddorion arfer da cydnabyddedig gan gynnwys ystyriaethau sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys canlyniadau ymgynghori a defnydd o ddata perthnasol.

Mae’r asesiad yn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posib. Er mwyn cynnal yr asesiad hwn:

- Adolygwyd y polisi cyfredol a’r polisi drafft diwygiedig o safbwynt cydraddoldeb
- Ystyriwyd dyletswyddau statudol y Comisiynydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Archwiliwyd ymatebion i’r ymgynghoriad
- Ystyriwyd data perthnasol sydd ar gael ynglŷn â chwynion gan gynnwys gwybodaeth proffil a demograffeg

Rydym yn ystyried fod asesiad yn broses parhaus, gyda threfniadau monitro a gwerthuso yn sicrhau bod polisïau yn wirioneddol gynhwysol ac effeithiol.

## ARDAN 3 - Ymgysylltu a data

Cynhaliodd y Comisiynydd broses ymgysylltu gyda rhanddeiliaid rhwng y 4ydd o Ragfyr 2024 a’r 29ain o Ionawr 2025.

Anfonwyd dolen i'r dogfennau ymgysylltu drwy e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys:

- pob corff sy’n gweithredu safonau'r Gymraeg
- pob corff sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau diweddar, neu’n debygol o ddod o dan safonau yn ystod y cyfnod nesaf.
- grwpiau ymgyrchu (Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol, Rhieni dros Addysg Gymraeg a.y.y.b.)
- rhanddeiliaid eraill (Mentrau Iaith Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg, yr Urdd a.y.y.b.)

Gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno sylwadau a chwblhau holiadur trwy ffurflen ar-lein. Derbyniwyd rhai sylwadau dros e-bost, ac maent wedi eu hystyried yn yr un modd â’r rhai gyflwynwyd ar-lein. Deallwn y bu cytundeb i bob cais am  estyniad i'r amserlen ar gyfer ymateb.

Cafodd yr holl wybodaeth ynghyd â’r dolen i’r ffurflen adborth eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Fel rhan o weithgareddau codi ymwybyddiaeth, rhannwyd dolen mewn chwe neges ar blatfform ‘X’ a thudalen LinkedIn y Comisiynydd a chyhoeddwyd gwybodaeth am yr ymarferiad yng nghylchlythyr rhanddeiliaid oedd ar gael ar wefan y Comisiynydd yn ogystal ac wedi ei anfon yn uniongyrchol i rhanddeiliaid. Deallwn fod y rhestr gysylltu ar gyfer derbyn cylchlythyrau yn cynnwys cyrff sydd yn cynrychioli pobl sydd a dynodiadau gwarchodedig.

Rydym yn deall na fu ymdrech benodol, tu hwnt i’r broses ymgysylltu gyffredinol, i ymgysylltu gyda phobl sydd â dynodiadau gwarchodedig.

<u>Canlyniad yr ymgysylltu</u>

Derbyniwyd cyfanswm o 68 ymateb, gyda 62 o’r rheiny gan gyrff cyhoeddus. Derbyniwyd dau ymateb gan grwpiau ymgyrchu, dau gan aelodau o’r cyhoedd a dau gan randdeiliaid polisi’r Gymraeg.

Ystyrir fod y canlynol yn cwmpasu’r prif themâu:

- Cefnogaeth eang i ddull cyd-reoleiddio - Cafwyd cefnogaeth glir gan y mwyafrif o sefydliadau i’r dull cydweithredol a’r pwyslais ar ddeilliannau rheoleiddio. Roedd sylwadau cadarnhaol wrth ystyried fod y polisi drafft yn ffordd o wella effeithlonrwydd, ac yn ffordd o alluogi sefydliadau i ymateb yn fwy prydlon ac effeithiol i faterion cydymffurfiaeth.

- Gweithdrefn ymchwiliadau – Mynegodd nifer fod angen gwybodaeth fanwl am y broses ymchwilio, er enghraifft, sut i gysylltu â’r Comisiynydd a beth yw’r amserlen arferol.
- Capasiti ac adnoddau sefydliadol - Cafwyd nifer o sylwadau ar y goblygiadau ymarferol i sefydliadau o safbwynt adnoddau a thoriadau ariannol. Roedd pryder bod pwysau cynyddol yn gallu amharu ar allu sefydliadau i gydymffurfio’n effeithiol.
- Cyfeirio cwynion at sefydliadau - Codwyd pryder gan rai nad yw’n deg cyfeirio cwynion at sefydliadau fel mater o drefn, er nad oedd yn glir o’r ymatebion beth  oedd sail y pryder hwnnw.
- Natur y cwynion - Mynegwyd pryder gan rai nad yw’r polisi yn gwneud digon i bwysleisio bod pob cwyn yn bwysig, ac nid y rhai strategol yn unig.
- Cwestiynau am brosesau cwyno sefydliadau - Codwyd awgrymiadau ynghylch y broses gwyno fewnol a’r angen am ganllawiau clir a chyson ar draws sefydliadau.
- Cydbwysedd rhwng ymchwiliadau a gwaith ehangach - Mynegodd un bryder y gallai’r polisi greu’r argraff bod gwaith rheoleiddio’n cael ei gyfyngu i ymchwiliadau penodol yn unig.
- Cydymffurfiaeth â'r Mesur - Codwyd pryderon fod y polisi drafft o bosib yn groes i ddarpariaethau’r Mesur, e.e. drwy annog sefydliadau i hunan-adrodd neu drwy gynnwys meini prawf cwynion ‘dilys’.

Ymatebion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth

Cafwyd nifer o ymatebion yn cyfeirio at faterion a oedd yn gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth, roedd rhain yn cynnwys effaith y polisi diwygiedig ar hawliau siaradwyr Cymraeg, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu sydd wedi'u tan-gynrychioli.

- Nododd sawl ymateb y gallai lleihau’r defnydd o ymchwiliadau ffurfiol danseilio ymddiriedaeth defnyddwyr ac arwain at esgeuluso cwynion am y Gymraeg gan gyrff cyhoeddus.
- Cafwyd croeso gan rai  at agweddau penodol o’r  polisi, megis addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i bobl ag anghenion penodol, ond pwysleisiwyd yr angen am ddulliau cyfathrebu cynhwysol, e.e. EasyRead neu fformat BSL.
- Nododd rhai bryder y byddai’r polisi yn lleihau mynediad at gyfiawnder yn ystod argyfwng costau byw, gan awgrymu bod angen mwy, nid llai, o gefnogaeth gan y Comisiynydd.

Cafwyd sylwadau am yr ymgysylltu ei hun, gan gynnwys diffyg cyhoeddusrwydd a’r diffyg tryloywder ynghylch newidiadau i’r polisi. Nododd un ymateb bod bwlch yn yr asesiad wrth ystyried effaith cydraddoldeb, gan ofyn pwy fyddai'n cael ei gynnwys neu ei eithrio o'r drefn newydd.

Sail tystiolaeth arall

Fel rhan o’r asesiad, ystyriwyd ffynonellau tystiolaeth berthnasol eraill oedd ar gael gan y Comisiynydd, gan gynnwys data cydraddoldeb cwynwyr.

Mae’r data proffil cydraddoldeb achwynwyr sydd yn cael ei ddal gan y Comisiynydd ar hyn o bryd yn isel ac yn cyfyngu ar ein gallu i greu dadansoddiad cyflawn. Nodwn fod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–28 y Comisiynydd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu gan gynnwys “Cofnodi data cydraddoldeb gan bobl sy’n ymgysylltu â ni, gan gynnwys mewn perthynas â chwynion, a lle bo hynny’n briodol, cyhoeddi’r data hwnnw”.

Mae’r trosolwg canlynol ar sail yr wybodaeth sydd wedi ei gofnodi ar gyfer deg achwynydd yn unig sydd wedi cwblhau’r ffurflen ar-lein ar wefan y Comisiynydd. Er mai nifer fechan sydd wedi ymateb i’r holiadur, ystyrir fod hyn yn rhoi darlun cychwynnol er mwyn asesu i ba raddau mae amrywiaeth a

chynrychiolaeth cymdeithasol yn cael eu hadlewyrchu ymhlith yr achwynwyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau.

Demograffeg

- Oedran: Roedd mwyafrif yr ymatebwyr rhwng 55–64 oed (chwech), a ni chafwyd unrhyw ymateb gan unrhyw un o dan 35 oed. Mae hyn yn golygu diffyg cynrychiolaeth gan bobl iau.
- Rhywedd: Roedd saith o ymatebwyr yn fenywod, a tri yn ddynion. Nid oedd unrhyw un wedi dewis opsiwn 'arall' nac wedi gwrthod ateb.
- Cenedligrwydd ac Ethnigrwydd: Roedd pob ymatebydd yn Gymreig a naw o'r deg yn wyn – Cymreig, gyda un yn nodi "Gwyn – arall".
- Iaith: Cymraeg oedd prif iaith pob cartref ac yn iaith gyntaf i wyth o'r ymatebwyr, gyda dau wedi dewis "gwell gen i beidio â dweud".

Addysg a Chyflogaeth

- Roedd wyth o'r ymatebwyr yn meddu ar gymhwyster lefel gradd neu uwch, sy'n dangos lefel uchel o gymhwysedd academaidd ymhlith y sampl.
- Roedd mwyafrif y sampl (saith) wedi'u cyflogi neu'n hunangyflogedig, gyda dau wedi ymddeol a dim ond un yn ddi-waith.

Anabledd

- Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn ystyried eu bod yn anabl.

Crefydd

- Roedd chwech o'r deg yn nodi eu crefydd fel Cristnogion, tra bod dau heb grefydd, ac roedd dau arall wedi nodi ei bod yn well ganddynt beidio ag ateb.

Statws Priodasol

- Roedd saith o'r ymatebwyr yn briod, ac nid oedd yr un ohonynt mewn partneriaeth sifil na'n byw gyda phartner.

Hunaniaeth Rhyw

- Nododd pob un eu bod yn uniaethu â'r rhyw a neilltuwyd iddynt ar adeg eu geni, heblaw am dri a ddewisodd beidio ag ateb.
- Roedd saith o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn heterorywiol, gyda tri yn dewis "gwell gen i beidio ag ateb".

Gofalu

- Roedd dau o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn ofalwyr.

Bylchau yn y dystiolaeth

Fel sydd wedi ei amlygu uchod, mae'r data cydraddoldeb sy'n bodoli eisoes yn rhy fach i adlewyrchu'r amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau neu i dynnu casgliadau cadarnhaol. Nodwn ei bod yn annhebygol felly i dueddiadau systemig gael eu hamlygu o ganlyniad.

Mae'n deg nodi fod y bylchau hyn hefyd yn ei gwneud yn anodd i gynnal asesiad cadarn a chynrychioliadol, sy'n amlygu sut gall y polisi effeithio ar bob grŵp gwarchodedig.

## ADRAN 4 – Adnabod yr effaith

Mae'r adran hon yn rhoi roi sylw i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl gyda'r nodweddion cydraddoldeb isod.

| Nodweddion | Effaith | Rhesymau gan gynnwys tystiolaeth ble bo hynny yn berthnasol |
|---|---|---|
| **Oed** | **Negyddol posib** | • Tystiolaeth data cwynion presennol yn awgrymu fod achwynwyr yn dueddol i fod yn hŷn sy'n awgrymu nad yw pobl ifanc yn ddigon hyderus i gyflwyno sylwadau ac adborth.<br>• Gall cyfyngu dulliau cyflwyno cwynion i'r dulliau sy'n cael eu rhestru yn adran 3.8, o bosib greu rhwystrau i bobl dros 65 oed, yn enwedig os nad yw'r polisi yn cynnig gwybodaeth ddigonol am yr addasiadau rhesymol sydd ar gael. |
| **Anabledd — gan gynnwys niwroamrywiaeth, anableddau synhwyraidd, anableddau corfforol ac anableddau cudd** | **Negyddol posib** | • Mae'r broses gwyno yn seiliedig ar destun ac ar-lein yn bennaf, gall hynny eithrio pobl â nam ar eu golwg, anawsterau dysgu, neu rai cyflyrau niwroamrywiol.<br>• Gallai diffyg fformatau hygyrch (e.e., Hawdd ei Ddarllen, BSL, sain) gyfyngu ar gyfranogiad rhai pobl anabl.<br>• Risg yn bodoli os nad oes gwybodaeth ddigonol am yr addasiadau rhesymol sydd ar gael. |
| **Rhyw** | **Niwtral** | Dim tystiolaeth o effaith benodol |
| **Ailbennu rhywedd** | **Niwtral** | Dim tystiolaeth o effaith benodol |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Niwtral** | Dim tystiolaeth o effaith benodol |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | **Niwtral** | Dim tystiolaeth o effaith benodol |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Negyddol posib** | • Gallai'r broses eithrio unigolion yn anfwriadol os yw'r terfynau amser yn gaeth a heb eu haddasu ar gyfer pobl ar absenoldeb mamolaeth neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. |
| **Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd** | **Niwtral** | Dim tystiolaeth o effaith benodol |
| **Crefydd a chred – gan gynnwys diffyg cred** | **Niwtral** | Dim tystiolaeth o effaith benodol |
| **Nodweddion economaidd-gymdeithasol** | **Negyddol posib** | • Mynediad at y rhyngrwyd neu adnoddau digidol yn gyfyngedig i rai unigolion.<br>• Costau posib sy'n gysylltiedig â phostio neu drafnidiaeth. |

## ADRAN 5 – Dadansoddiad ac argymhellion

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn amlygu nifer o fylchau yn y dystiolaeth, yn enwedig o ran data cydraddoldeb cwynwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Mae maint cyfyngedig y sampl (deg unigolyn) yn cyfyngu ar y gallu i gynnal dadansoddiad cynhwysfawr a chynrychioliadol. Yn benodol, nid yw'r sampl yn adlewyrchu profiadau cymunedau sydd â nodweddion gwarchodedig megis pobl ifanc, pobl anabl, pobl LHDTQ+, a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Er bod y broses ymgysylltu yn ymddangos yn eang, ni chynhaliwyd unrhyw gamau ymgysylltu penodol gyda grwpiau dan anfantais neu rai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn peri risg anfwriadol o eithrio safbwyntiau hanfodol sy'n allweddol i sicrhau tegwch a chynhwysiant.

Yn ogystal, mae'r polisi drafft yn codi pryderon posibl am fynediad cyfartal at brosesau cwyno – yn enwedig i unigolion nad ydynt yn gallu defnyddio dulliau digidol neu sy'n wynebu rhwystrau iaith, llythrennedd neu hygyrchedd.

**Argymhellion**

Er mwyn cryfhau'r polisi a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, rydym yn argymell y camau canlynol:

- **Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau**
    - Cynnwys datganiad clir am addasiadau rhesymol a chynnig enghreifftiau penodol gan gynnwys trefniadau i gyflwyno dros y ffôn/ ar lafar.
    - Sicrhau fersiynau hygyrch o'r polisi a dogfennau cysylltiedig (e.e. Braille, print bras, BSL, sain, Easy Read).
    - Hyrwyddo'r gwasanaeth fel un di-dâl a hawdd ei ddefnyddio.
- **Datblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu gydag unigolion a chymunedau sydd â nodweddion gwarchodedig**
    - Sicrhau bod dulliau ymgysylltu yn mynd y tu hwnt i randdeiliaid sefydliadol ac yn cynnwys pobl sydd â phrofiad byw.
    - Gweithio gyda sefydliadau allweddol (e.e. Disability Wales, Stonewall Cymru) i dargedu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- **Cryfhau trefniadau casglu a dadansoddi data cydraddoldeb**
    - Adolygu trefniadau casglu data cydraddoldeb gan achwynwyr a defnyddwyr gwasanaethau..
    - Cyhoeddi crynodebau blynyddol o'r data i gynyddu tryloywder a gwelliannau parhaus.
- **Monitro'r effaith yn barhaus ar grwpiau gwarchodedig**
    - Monitro yn flynyddol yng ngoleuni adborth gan grwpiau amrywiol, ac adolygu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â hynny.